**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/07068/19

Janet Finch-Saunders AC
Aelod Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@llyw.cymru

28 Ionawr 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr ynglŷn â chanllawiau i gynghorau cymuned a thref o ran mynychwyr allanol yn recordio cyfarfodydd.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ganllawiau i gynghorau cymuned a thref ynglŷn â hyn. Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnig y byddai'n ofynnol i'r cadeirydd roi cyfle rhesymol i aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol gyflwyno sylwadau ar eitemau busnes mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned a gynhelir yn gyhoeddus – oni bai y byddai hynny'n golygu nad oedd yn bosibl cynnal y cyfarfod mewn modd effeithiol.

Ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol, byddwn yn adolygu fersiwn bresennol Canllaw'r Cynghorydd Da, gan annog cynghorau cymuned a thref i ystyried a chyhoeddi eu fformat ar gyfer galluogi cyfranogiad gan y cyhoedd yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol.

Hefyd, rydym wedi cynnal arolwg yn ddiweddar er mwyn deall yn well sut mae'r sector yn defnyddio cyfryngau digidol i ymgysylltu â'i etholwyr. Ar ôl inni ddadansoddi'r canlyniadau, y bwriad yw cyhoeddi canllawiau cyn diwedd mis Mawrth 2020, gan ddefnyddio astudiaethau achos o arferion da i annog mwy o ddefnydd o adnoddau digidol er mwyn sicrhau mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd yng ngwaith y cynghorau cymuned a thref.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.